



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: 44338

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar ddiweddaru trothwyon enillion ar gyfer Gorchmynion Atafaelu Enillion

Chwefror 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

Trosolwg

Pan fydd gorchymyn dyled wedi'i roi i awdurdod bilio, gall yr awdurdod gyfarwyddo cyflogwr i adennill treth gyngor heb ei thalu o gyflog cyflogai gan ddefnyddio Gorchymyn Atafaelu Enillion (AEO). Seilir y ganran a ddiynnir ar lefel enillion net y cyflogai.

Diwygiwyd y trothwyon enillion a ddefnyddir i bennu'r cyfraddau didynnu ar gyfer talu'r dreth gyngor ddiwethaf yn 2007 gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007, yn unol â'r Mynegai Enillion Cyfartalog (AEI). Ym mis Ionawr 2010, disodlwyd yr AEI gan y mesur Enillion Wythnosol Cyfartalog (AWE), gan ddarparu prif ddangosydd enillion tymor byr.

Roedd y ddogfen ymgynghori, 'Ymgynghoriad ar ddiweddaru trothwyon enillion ar gyfer Gorchymynion Atafaelu Enillion' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 yn ceisio barn pobl am y cynnig i ddiweddaru'r ffigurau hyn yn unol ag Enillion Wythnosol Cyfartalog. Nodir canlyniadau'r ymgynghoriad yn y ddogfen hon.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Polisi'r Dreth Gyngor
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Consultations@llyw.cymru

Copiâu ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Dolen i'r dogfennau ymgynghori: [hyperlink](#)

Cynnwys

Crynodeb o'r ymatebion	3
Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori	3
Y Camau Nesaf	5

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 26 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr.

Math	Nifer
Unigolyn	13
Awdurdod Lleol	6*
Sefydliad Arall	4
Gwasanaeth Trydydd Sector/Cynghori	3

*Cafwyd dau ymateb gan ddau dîm ar wahân yn un o'r awdurdodau lleol

Ceir rhestr o'r ymatebwyr heblaw am y rheini a ofynnodd am aros yn ddiennw yn Atodiad A. Pan fo ymatebydd wedi gofyn inni gadw ei fanylion yn gyfrinachol, cyfeirir ato fel ymatebydd "Dienw" er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Bwrriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio casglu pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn chwe cwestiwn, a cheir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn isod. Ni wnaeth pob ymatebydd roi ymateb i bob cwestiwn.

Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori

C1. A ydych yn cytuno â'r bwriad polisi i uwchraddio'r trothwyon enillion a ddefnyddir i bennu'r symiau y gellir eu didynnu trwy orchymyn dyled?

Rhowch resymau am eich ymateb.

- Roedd 16 o'r 19 o ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn (84%) yn cytuno â'r bwriad polisi. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn deg ac yn rhesymol, er bod rhai ohonynt wedi nodi y byddai'n bwysig gwneud gwaith monitro er mwyn canfod pa mor effeithiol yw'r mesurau a phenderfynu a fyddai angen gwneud unrhyw addasiadau yn y dyfodol.
- Roedd y tri ymateb arall (16%) yn mynegi'r farn na ddylid newid y trothwyon. Roedd yr ymatebion hyn yn cytuno yn gyffredinol na fyddai'r cynigion newydd yn ddigon llym, gan godi pryderon am yr effaith ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor.

C2. A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu arfaethedig o uwchraddio'n ddull gweithredu priodol ar gyfer pennu'r cyfraddau terfynau enillion newydd? Rhowch resymau am eich ymateb.

- Yn debyg i'r cwestiwn blaenorol, daeth 19 o ymatebion i law, ac roedd 16 ohonynt (84%) yn cytuno â'r cynnig. Ni roddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau i ategu eu hymateb. Dywedodd un ohonynt nad oedd yn siŵr pa opsiynau eraill a allai fod ar gael yn lle'r dull gweithredu a awgrymwyd.
- Nid oedd y tri ymateb arall yn cytuno y dylid newid y cyfraddau o gwbl. Gwnaethant ailadrodd eu pryderon ynghylch yr effaith negyddol ar gyfraddau casglu, gan awgrymu y gallai arwain at gymryd mwy o amser i glirio dyledion, neu at awdurdodau lleol yn troi at ffyrdd eraill o orfodi dyledion.

C3. Pa mor aml rydych yn credu y dylai'r trothwyon enillion gael eu huwchraddio? Rhowch resymau am eich ymateb.

- Roedd wyth o'r 16 o ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn (50%) yn awgrymu y dylid uwchraddio'r trothwyon bob blwyddyn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o'r farn y byddai hyn yn briodol am y byddai'n sicrhau bod yr uwchraddio yn gyson â threthi eraill, y Mynegai Prisiau Manwerthu a chyfraniadau pensiwn. Roedd eraill a oedd o blaid uwchraddio blynyddol o'r farn y byddai'n ddefnyddiol o ran helpu i gydweddu â'r farchnad swyddi sy'n newid yn gyflym, yn ogystal â chostau byw a budd-daliadau cysylltiedig.
- Roedd chwech o'r ymatebion (38%) yn cynnig uwchraddio rhwng pob tair a phum mlynedd. Rhoddwyd nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys:
 - Drwy uwchraddio bob tair blynedd, byddai'r cylch adolygu yn dilyn yr un amserlen â Llywodraeth yr Alban.
 - Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai unrhyw angen i uwchraddio yn fwy aml na phob pum mlynedd yn drwm ar gyflogwyr, a fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod meddalwedd cyflogres yn cael ei diweddarau.
- Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn y byddai uwchraddio bob deng mlynedd yn ddigonol, er ei fod hefyd o'r farn bod y mesurau'n rhy hael.
- Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r egwyddor ac yn teimlo na ddylid diweddarau'r trothwyon.

C4. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r polisi arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

- Roedd 25 o'r ymatebwyr (96%) o'r farn nad oedd y cynigion hyn yn berthnasol i'r Gymraeg, ac na fyddent yn cael unrhyw effaith ar yr iaith.

- Awgrymodd un o'r ymatebion efallai y byddai rhagor o bobl yn awyddus i barhau i fyw yng Nghymru pe bai'r system dreth gyngor yn decach, a thrwy hynny gellid annog rhagor o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

C5. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Roedd 24 o'r ymatebwyr (92%) o'r farn nad oedd y cynigion hyn yn berthnasol i'r Gymraeg o gwbl.
- Awgrymodd dau o'r ymatebion y dylid sicrhau bod unrhyw gyfathrebu ynghylch y newidiadau fod yn ddwyieithog er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ieithoedd yn cael eu trin yn gyfartal.

C6. Os hoffech godi unrhyw bwyntiau am y mater hwn, manteisiwch ar y cyfle hwn i'w cofnodi yma.

- Tynnodd tri o'r ymatebwyr (12%) sylw at bryderon ynghylch problemau a allai godi wrth geisio addasu meddalwedd cyflogres i ddelio â'r newidiadau hyn. Yn y gorffennol, byddai Cymru a Lloegr wedi bod yn gyson o ran bandiau'r trothwyon. Byddai unrhyw amrywiad yn ei gwneud yn ofynnol i addasu'r systemau er mwyn cyfrif am y newid yng Nghymru. Byddai angen rhoi gwybod i ddarparwyr meddalwedd am y newidiadau er mwyn iddynt allu rhoi'r addasiadau hyn ar waith.
- Tynnodd dau (8%) o'r ymatebion sylw at yr effaith negyddol y gallai'r cynnig ei chael ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor, a'r pwysau ar awdurdodau lleol yn sgil hynny.
- Awgrymodd dau (8%) o'r ymatebion y dylai cynlluniau talu fod yn fwy hyblyg, neu y dylid rhoi trefniadau eraill ar waith ar gyfer adennill arian sy'n ddyledus.
- Roedd un ymateb (4%) yn dweud y dylid adolygu'r didyniad gwerth £1.00 y gall cyflogwyr ei wneud o dan y rheoliadau ar hyn o bryd i dalu costau, am fod cyflogwyr yn aml yn mynd i gostau sy'n fwy na £1.00 wrth roi Gorchymyn Atafaelu Enillion.

Y Camau Nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ynghyd â'r crynodeb hwn o'r ymatebion, gan nodi'r cynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i uwchraddio'r trothwyon enillion ar gyfer Gorchymynion Atafaelu Enillion yn unol ag Enillion Wythnosol Cyfartalog o fis Ebrill 2022.

Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Caerdydd
- Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Cyflogres Proffesiynol (CIPP)
- Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- i-Realise Ltd
- Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
- Yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Workday (UK) Ltd
- Peter Overall
- Stephen Harvey

Roedd yr ymatebwyr eraill yn dymuno aros yn ddienw.